

CYDBWYLLGOR GwE
CYLCH GORCHWYL



AELODAETH Y CYDBWYLLGOR

Mae aelodaeth y Cydbwyllgor, yn unol a'r hyn a amlinellir isod, ac yn adlewyrchu'r strwythur a nodwyd yn yr Achos Busnes. Y cworwm angenrheidiol i gyfarfodydd Cydbwyllgor fydd pump (5) aelod o'r Cydbwyllgor â hawl i bleidleisio. Mae'r Cytundeb Rhwngawdurdod hefyd yn caniatáu presenoldeb dirprwy os oes angen.

Aelodau â Hawl i Bleidleisio	Aelodau sy'n Swyddogion - Dim Pleidlais
Chwe Aelod Portffolio Addysg <i>Un o bob Awdurdod Lleol yng ngogledd Cymru</i>	Chwe Prif Swyddog Addysg Statudol <i>Un o bob Awdurdod Lleol yng ngogledd Cymru</i>
Aelodau Cyfetholedig - Dim Pleidlais*	Swyddogion i Fynychu
Un Cynrychiolydd o'r Ysgolion Cynradd Un Cynrychiolydd o'r Ysgolion Uwchradd Un Cynrychiolydd o'r Ysgolion Arbennig	Un Cynrychiolydd S151
Un Cynrychiolydd o'r Llywodraethwyr	Arbenigwyr eraill yn ôl y gofyn

Yn unol â'r Achos Busnes Llawn, bydd Grŵp Defnyddwyr Llywodraethwyr ac Ysgolion GwE yn enwebu cynrychiolydd o'r ysgolion Uwchradd, yr ysgolion Cynradd a'r ysgolion Arbennig a chynrychiolydd o'r Llywodraethwyr i gymryd y seddau priodol ar y Cydbwyllgor.

Gall corff enwebu Dirprwy i fynychu'r Cydbwyllgor ar ran aelod yn yr amgylchiadau a ganlyn:

- (i) i gymryd lle aelod o'r Cydbwyllgor;
- (ii) pan nad yw'r aelod yn gallu mynychu'r cyfarfod cyfan; ac
- (iii) os yw'r aelod wedi hysbysu'r Cadeirydd o flaen llaw'r cyfarfod perthnasol.

Dim ond yn y cyfarfod hwnnw o'r Pwyllgor neu'r Is-bwyllgor y bydd gan Ddirprwy yr hawl i siarad, a phan fo'n berthnasol, pleidleisio, ac ni fydd unrhyw swyddogaeth neu benodiad arall, yn cynnwys penodiadau i Weithgorau, yn berthnasol iddynt pan fyddant yn gweithredu fel Dirprwy.

CYLCH GORCHWYL A SWYDDOGAETHAU DIRPRWYEDIG Y CYDBWYLLGOR

Mae'r Cytundeb Rhwng Awdurdod yn diffinio'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y Cydbwyllgor, gan gynnwys ei Gylch Gorchwyl a'r Pwerau Dirprwyedig. Mae hyn hefyd yn adnabod pa faterion a gedwir yn benodol i'r awdurdodau unigol o fewn y bartneriaeth benderfynu arnynt. Dyma gylch gorchwyl a phwerau dirprwyedig y Cydbwyllgor:

- i hyrwyddo cydweithio wrth gyflwyno'r Gwasanaeth trwy;
- ii hwyluso gweithio mewn partneriaeth mewn modd adeiladol;
- iii ymgysylltu â chyrrff allweddol a budd-ddeiliaid â diddordeb pan fo hynny'n briodol; a
- iv chwblhau gweithgareddau cyffelyb eraill er mwyn hwyluso, neu sy'n arwain at gyflwyno'r Gwasanaeth yn llwyddiannus;
- v goruchwyllo rheolaeth y Gwasanaeth a sicrhau bod y Gwasanaeth yn cael ei ddarparu a'i fod yn perfformio yn unol â disgwyliadau'r Awdurdodau Partner fel yr adlewyrchir yn yr Achos Busnes Llawn, y Cytundeb Rhyngasiantaethol ac yn y Cynlluniau Busnes a Chomisiynu Blynyddol a gytunwyd.
- vi cymeradwyo'r gyllideb ar gyfer y Gwasanaeth yn flynyddol;
- vii cymeradwyo'r cynllun busnes ar gyfer y Gwasanaeth yn flynyddol;
- viii monitro a rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r Gwasanaeth;
- ix cadarnhau ceisiadau am gyllid ychwanegol gan Gynghorau unigol;

- x cymeradwyo strwythur staffio'r Gwasanaeth;
- xi penodi Prif Swyddog y Gwasanaeth;
- xii penderfynu ar gamau gweithredu disgyblu yn erbyn y Prif Swyddog; a
- xiii phan fo angen, penderfynu ar apeliadau, neu drefnu apeliadau, ar faterion Adnoddau Dynol.

Mae'r materion a ganlyn wedi'u cadw'n ôl yn benodol i bob Cabinet unigol benderfynu arnynt:

- i cymeradwyo trefniadau llywodraethu ar gyfer y bartneriaeth rhwng cynghorau;
- ii cynyddu'r gyllideb yn fwy na'r cyfraniad gan y cynghorau;
- iii caffael y gwiriadau archwilio a sicrwydd angenrheidiol;
- iv terfynu'r Bartneriaeth